Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Tanio’r dychymyg

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **15 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae’r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar sut mae pobl wedi defnyddio tân yn hanesyddol, ac effaith tanau gwyllt ar bobl a’r amgylchedd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol. | • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd. |
| • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | | • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch. |
| | | • **Yr hyn sy’n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Datblygu eu barn eu hunain a’u defnyddio i lywio eu dewisiadau.
- Datblygu gwybodaeth a gwella eu dealltwriaeth ynglŷn â thân a’i gyfraniad i hanes dynol.

## Adnoddau ac offer

- Taflen ddatganiadau ac atebion - Tanio’r dychymyg
- Lleoliadau neu gardiau cywir neu anghywir
- Man agored i chwarae

## Beth i'w wneud

1. Dechreuwch y gweithgaredd trwy drafod pam mae pobl yn defnyddio tân heddiw ac yn y gorffennol.
2. Nawr gofynnwch i'ch dysgwyr beth maen nhw'n ei wybod am danau gwyllt. A oes unrhyw un ohonynt erioed wedi gweld tanau gwyllt neu ardal lle mae tanau gwyllt wedi llosgi? Trafodwch sut y gallai tanau gwyllt effeithio ar bobl a'r amgylchedd naturiol lleol.
3. Eglurwch eu bod yn mynd i chwarae gêm, a'r nod yw bod yn arbenigwr ar danau gwyllt trwy benderfynu a yw datganiad sy'n cael ei ddarllen yn uchel yn gywir neu'n anghywir.
4. Dewiswch ddau bwynt fel lleoliadau ar gyfer 'Cywir' ac 'Anghywir'. Er enghraifft dwy goeden neu gornel cae.
5. Dangoswch i'r grŵp ble mae'r lleoliadau 'Cywir' ac 'Anghywir'.
6. Gofynnwch i'ch dysgwyr sefyll yn y canol rhwng y lleoliadau 'Cywir' ac 'Anghywir'.
7. Gan ddefnyddio'r **Daflen ddatganiadau ac atebion - Tanio'r dychymyg**, darllenwch un o'r datganiadau a gofynnwch i'ch dysgwyr benderfynu a yw'r datganiad yn gywir neu'n anghywir.
8. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr sefyll ger y lleoliad/marciwr priodol.
9. Unwaith y bydd y dewis wedi'i gadarnhau, rhowch yr ateb cywir a rhowch amser i'r dysgwyr drafod.
10. Unwaith y byddwch wedi darllen yr holl ddatganiadau, dewch â'r grŵp at ei gilydd i ystyried y datganiadau a sut maen nhw'n meddwl maen nhw wedi perfformio. A wnaethon nhw ddysgu unrhyw beth newydd? A oedd unrhyw beth yn syndod? Pa ddatganiad ac ateb oedd fwyaf diddorol yn eu barn nhw?
11. Gofynnwch i'ch dysgwyr ymchwilio'n fanylach i'r datganiadau neu chwilio am wybodaeth ddiddorol arall am danau gwyllt ar-lein.

    Gellir cwblhau'r gweithgaredd hwn hefyd:

    **Opsiwn 1** - fel gêm un cyfle, gyda dysgwyr yn gadael y gêm os maen nhw'n ateb yn anghywir.

    **Opsiwn 2** - mewn parau, gan gymryd tro i ddarllen ac ateb os mae'r datganiad yn gywir neu'n anghywir.

    **Opsiwn 3** - mewn llinell farn, lle maent yn symud mor agos ag y teimlant yn hyderus tuag at y lleoliadau cywir neu anghywir.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- A allaf wneud fy newisiadau fy hun?
- A yw'r datganiad hwn yn gwneud synnwyr?
- Pa mor debygol yw hyn o fod wedi digwydd?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Dewiswch a darllenwch rai o'r datganiadau yn unig, ar lefel sy'n addas ar gyfer gallu'r dysgwyr.
- Chwarae'r gêm yn unol ag opsiwn 2.

### Mwy o sialens

- Archwiliwch y datganiadau'n fanylach.
- Gwnewch ddatganiadau newydd i'w hychwanegu at y rhestr.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

Beth am roi cynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Pynciau llosg yn y cyfryngau
- Cynllun gweithgaredd – Dihangfa o danau gwyllt
- Ymchwiliwch sut mae bodau dynol wedi defnyddio tân a sut mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygiad dynol.
- Darganfyddwch sut i gadw'n ddiogel os bydd tanau gwyllt.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government